# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Cyfarfod a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai
# 12.30-1.30pm, 12 Chwefror 2020
Ystafell Briffio'r Cyfryngau, y Senedd, Bae Caerdydd

## Yn bresennol

Mike Hedges (MH) AC, (Cadeirydd)
David Melding (DM) AC
Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AC)
Ross Thomas (Tai Pawb)
John Puzey (Shelter Cymru)
Michelle Wales (Shelter Cymru)
Nick Morris (Crisis)
Ceri Cryer (Age Cymru)
Calum Davies (RLA)
Aaron Hill (Cartrefi Cymunedol Cymru)
Jon Sparkes (Crisis)

**Ymddiheuriadau**

Mathew Kennedy (Y Sefydliad Tai Siartredig)

**Cofnodion**

**1. Croeso gan y Cadeirydd**

Croesawodd MH yr Aelodau i'r cyfarfod.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Cytuno ar yr adroddiad blynyddol, ethol cadeirydd ac ysgrifenyddiaeth y grŵp.

Derbyniwyd yr adroddiad ar gyfer 2019. Cytunwyd y byddai Mike Hedges yn parhau fel cadeirydd ac y byddai'r ysgrifenyddiaeth yn parhau i fod yn nwylo Shelter Cymru. Diolchwyd i'r ddau am yr amser a'r gefnogaeth a roddwyd i'r grŵp.

**2.** Cyflwyniadau gan Jon Sparkes, cadeirydd Grŵp Gweithredu Tai Llywodraeth Cymru.

Diolchodd MH i Jon am gymryd yr amser i annerch y grŵp. Dechreuodd Jon trwy ganmol y cyfraniad a wnaed gan aelodau'r Grŵp Gweithredu Tai sy'n darparu'r mewnbwn arbenigol.

Esboniodd ei fod wedi cael gwahoddiad i gadeirio'r Grŵp Gweithredu Tai gan y Gweinidog, fel rhywun y tu allan i Gymru.

Cyflwynodd gam 2 yr adroddiad, sef y pwysicaf yn ei farn ef oherwydd ei ffocws ar atal. Roedd argymhellion eisoes yn dod i'r amlwg a theimlai y byddai'r rhain i raddau helaeth yn sail i'r argymhellion terfynol. Pwysleisiodd y bu ymgynghori sylweddol â phobl sydd wedi cael profiad o fod yn ddigartref a bod yr ymgynghori'n parhau.

Aeth dros yr argymhellion pwysig yn yr adroddiad cyntaf, a oedd yn canolbwyntio ar gysgu allan a sut y gallwn weithio tuag at roi diwedd ar gysgu allan yng Nghymru. Byddai'r angen i ddiddymu'r Ddeddf Crwydradaeth ac angen blaenoriaethol yn gerrig milltir pwysig. Roedd angen newid gwasanaethau comisiynu i ganolbwyntio ar allgymorth pendant, yr angen am atal cyffredinol, a'r ffaith nad yw 56 diwrnod ar gyfer atal argyfwng yn ddigonol ac y dylid ymestyn hyn i 6 mis.

Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i gynnwys gyda'r cofnodion hyn

Gofynnodd MH a oedd y gwasanaethau presennol yn gwneud digon i gefnogi pobl sydd bellach yn ddigartref. Nododd JS fod gwasanaethau wedi gwella, yn enwedig ar adeg argyfwng, ond bod angen gwneud mwy o ran y camau nesaf.

Gofynnodd DM a oes dull mwy uniongyrchol y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer pobl sy'n cysgu allan. Dywedodd JS fod angen i ni fynd i'r afael â hyn yn gyflym, bod angen mwy o allgymorth pendant, gydag opsiynau llety a symudiadau wedi'u rheoli, ac i'r rhain gael eu rheoli'n gyflym

Aaron Hill - Nododd y byddai cefnogaeth drawsbleidiol i gyflymu'r broses o adeiladu tai cymdeithasol yn helpu i gartrefu mwy o bobl a bod y sector yn cael ei herio'n briodol i ymuno yn yr alwad i roi diwedd ar droi pobl allan o dai cymdeithasol sy'n arwain at ddigartrefedd. Nododd enghreifftiau rhagorol o bolisïau dyrannu sy'n sicrhau bod pobl yn gallu cael cartref.

Cytunodd JS fod dyrannu yr un mor berthnasol â chyflenwi yn y mater hwn.

Gofynnodd DM sut rydym yn lobïo San Steffan ynghylch lles.

Dywedodd JS fod dadrewi'r rhewi yn gam bach i'r cyfeiriad cywir a chyflwynwyd achos economaidd cryf. Efallai y bydd yn gweithio'n well i Gymru gan ein bod yn cynyddu'r cyflenwad hefyd, yn wahanol i Loegr.

Cyflwynodd MI yr ail gyflwyniad gan Calum Davies (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl) a gyflwynodd ynghylch cynllun gosod cymdeithasol y sector rhentu preifat sydd ar fin cael ei lansio yng Nghymru. Gobaith y cynllun yw:

- Darparu cartrefi fforddiadwy o safon i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cyrchu a chadw tenantiaeth yn y sector rhentu preifat.
- Lleihau'r pwysau ar restrau aros ar gyfer tai cyngor, ac wrth gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd.
- Gwella mynediad at y sector rhentu preifat trwy ddefnydd arloesol o gyllid. Bwriedir iddo fod yn wahanol i gynllun traddodiadol sy'n seiliedig ar grantiau.
- Gwneud y defnydd gorau o eiddo gwag a chynyddu safonau mewn eiddo yn y sector rhentu preifat

Mae copi o bapur briffio Calum wedi'i atodi i'r cofnodion hyn

## 3. CAMAU GWEITHREDU

Gwahoddodd MH a DM Calum (y Cymdeithas Landlordiaid Preswyl) i ysgrifennu atynt gyda'r pwyntiau a'r argymhellion a wnaeth yn y cyfarfod.

## 4 Unrhyw fater arall

Gwahoddir holl aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol i gyfarfod grŵp Homes for All Cymru ar 13 Mai 2020 lle bydd pynciau ar gyfer Grŵp Trawsbleidiol 17 Mehefin 2020 ac unrhyw gamau dilynol o'r cyfarfod heddiw yn cael eu trafod.

**Dyddiad cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol ar dai yw 2020**